

At: Aelodau'r Pwyllgor Archwilio  
Cymunedau

Dyddiad: 7 Medi 2015

Rhif Union: 01824 712554

ebost: dcc\_admin@denbighshire.gov.uk

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR ARCHWILIO CYMUNEDAU, DYDD IAU, 10 MEDI 2015** am **9.30 am** yn **YSTAFELL BWYLLGORA 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN.**

Yn gywir iawn

G Williams  
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

## **AGENDA**

### **1 YMDDIHEURIADAU**

### **2 DATGAN CYSYLLTIAD**

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

### **3 MATERION BRYD FEL Y CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

### **4 COFNODION (Tudalennau 5 - 12)**

Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio Cymunedau a gynhaliwyd ar 9 Gorffennaf 2015 (copi ynghlwm).

### **5 CYNLLUNIO ARIANNOL (Tudalennau 13 - 18)**

To consider a report by the Chief Finance Officer (copy attached) which highlights some of the funding decisions taken by Welsh Government in the last year and outlines the impact on the council's financial planning.

**9.35 am – 10.10 am**

**6 GWASANAETHAU BYW'N ANNIBYNNOL** (Tudalennau 19 - 24)

I ystyried adroddiad gan y Rheolwr Tîm Cefnogi Pobl a Rheolwr Gofal a Chymorth Tai (copi ynghlwm) ar y

**10.10 am – 10.45 am**

**Egwyl**

**7 ADRODDIAD CYNNYDD PROFFILIO GRWPIAU CYMUNEDOL**

(Tudalennau 25 - 60)

I ystyried adroddiad gan y Swyddog Arweiniol: Pobl Ifanc, Diogelu a Datblygu Gweithlu (copi ynghlwm) ar y

**10.55 am – 11.30 am**

**8 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO** (Tudalennau 61 - 78)

Ystyried adroddiad gan y Cydlynnydd Archwilio (copi wedi'i amgáu) yn gofyn am adolygiad o raglen waith y pwyllgor a rhoi'r diweddaraf i'r aelodau ar faterion perthnasol.

**11.30 am – 11.40 am**

**9 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR**

Derbyn unrhyw ddiweddariadau gan gynrychiolwyr ar amrywiol Fyrddau a Grwpiau Cyngor

**11.40 am – 11.50 am**

**AELODAETH**

**Y Cynghorwyr**

Y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts  
(Cadeirydd)

Y Cynghorydd Rhys Hughes (Is-  
Gadeirydd)

Brian Blakeley  
Bill Cowie  
Peter Arnold Evans  
Martyn Holland

Win Mullen-James  
Bob Murray  
Cefyn Williams  
Cheryl Williams

**Aelodau Cyfetholedig dros Addysg sy'n Pleidleisio (Rhifau Eitemau Agenda 7 yn unig)**

Gill Greenland  
Debra Houghton  
Dr. D. Marjoram

John Piper  
Gareth Williams

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth  
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd  
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

## PWYLLGOR ARCHWILIO CYMUNEDAU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio Cymunedau a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Iau, 9 Gorffennaf 2015 am 9.30 am.

### YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Brian Blakeley, Huw Hilditch-Roberts (Cadeirydd), Martyn Holland, Rhys Hughes (Is-Gadeirydd) a/ac Cefyn Williams.

Roedd yr Aelod Arweiniol, Y Cynghorydd D.I. Smith yn bresennol ar gais y Pwyllgor.

### HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol (RM), Pennaeth Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol (SP), Pennaeth Busnes, Gwella a Moderneiddio (AS), Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (GB), Rheolwr Traffig, Parcio a Diogelwch Ffyrdd (MJ), Rheolwr Datblygu: Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (PM), Rheolwr Gwasanaethau Democraidd (SP), Swyddog Graddedig dan Hyfforddiant (IW) a Swyddog Gweinyddol (CIW).

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorwyr B. Blakeley ac M.L. Holland i'w cyfarfod cyntaf yn dilyn eu penodi i'r Pwyllgor.

### 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Bill Cowie, Peter Arnold Evans, Win Mullen-James, Bob Murray a/ac Cheryl Williams.

### 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni chafwyd datganiad gan unrhyw Aelod o fuddiant personol neu ragfarnus mewn unrhyw fater a nodwyd i'w hystyried yn y cyfarfod.

### 3 MATERION BRYN FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Yn unol â gofynion Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, dywedodd y Cadeirydd ei fod yn bwriadu cynnwys y mater canlynol i'w drafod, fel mater sydd angen sylw brys o dan Ran II:-

1. Tynnu arwyddion heb eu hawdurdodi oddi ar dir priffordd.

Cyfeiriodd y Cynghorydd T.R. Hughes at achlysur pan oedd y Cyngor wedi gwneud cais i symud arwydd tua wyth modfedd. Esboniodd Pennaeth y Gwasanaethau Priffyrdd a'r Amgylchedd y gallai ail-leoli'r arwydd, hyd yn oed bellter byr iawn, fod yn arwyddocaol i rai o'r cyhoedd, megis pobl sy'n defnyddio bygis a chadeiriau olwyn. Cyfeiriodd at waith y Tîm Digwyddiadau a chadarnhaodd bod y swyddogion

wedi gweithio'n agos gyda pherchenogion yr arwyddion, a bod cytundeb cyfeillgar wedi'i sicrhau yn y rhan fwyaf o achosion.

#### **4 COFNODION**

Cyflwynwyd Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Archwilio Cymunedau, a gynhaliwyd ddydd Iau 25<sup>ain</sup> Mai, 2015.

***PENDERFYNWYD** – i dderbyn a chymeradwyo'r Cofnodion fel cofnod cywir.*

#### **5 METHODOLEG AR GYFER PENNU FFI OEDD PARCIO CEIR PRIODOL YN SIR DDINBYCH**

Roedd adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Priffyrdd a'r Amgylchedd, a oedd yn nodi'r dull a ddefnyddiwyd i benderfynu ar daliadau parcio ceir priodol yn Sir Ddinbych, a'r egwyddorion a fabwysiadwyd ar gyfer trafod y trefniadau cymhorthdal gyda Chynghorau Tref, a/neu unrhyw gyrff eraill, wedi'i ddsbarthu gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Cyflwynodd y Cynghorydd D.I. Smith yr adroddiad ac esboniodd bod y broses o bennu ffioedd a thaliadau wedi'i dirprwyo i lefel Pennaeth Gwasanaeth, gyda'r eithriad y byddai angen ymgynghori â'r Aelodau ynglŷn ag unrhyw newidiadau cynhennus.

Esboniodd Pennaeth y Gwasanaethau Amgylcheddol nad oedd taliadau meysydd parcio Sir Ddinbych wedi'u cynyddu ers 6 blynedd ac mae manylion am hyn yn Atodiad A. Roedd y diffyg a brofwyd wedi'i unioni gan draws-gymorthdaliadau o'r gyllideb cynnal a chadw priffyrdd gyffredinol. Roedd goblygiadau darparu traws-gymorthdaliadau ar sail barhaol wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad.

Roedd y broses o bennu cyllideb y Cyngor ar gyfer 2016-17 yn ymgorffori'r broses Rhyddid a Hyblygrwydd, a gellir ystyried yr anghysondeb presennol yn y gyllideb fel rhan o'r broses honno. Er mai'r Aelodau fyddai'n penderfynu ar lefelau cyffredinol y gyllideb, nid oedd yn deg, nac yn rhesymol, disgwyl iddynt bennu taliadau ar gyfer meysydd parcio unigol, ar gyfer hyd arosiadau unigol, a dyna pam yr oedd y swyddogaeth honno wedi'i dirprwyo i lefel swyddog. Byddai angen datblygu'r trefniadau codi taliadau mewn ffordd resymegol a theg, ac roedd y dulliau a ddefnyddiwyd i gael sefyllfa deg a rhesymol ar gyfer codi taliadau, o fewn y gyllideb sydd wedi'i dyrannu, wedi'u cynnwys yn yr adroddiad.

Darparwyd amlinelliad o'r egwyddorion sylfaenol a ddefnyddiwyd i benderfynu ar lefelau'r taliadau, ynghyd â:-

- Costau darpariaeth.
- Rheoleiddio'r manau parcio sydd ar gael.
- Amserlenni prisio.
- Cyfraddau taliadau arfaethedig ar gyfer Sir Ddinbych.
- Y lefelau taliadau canlyniadol a oedd yn debyg iawn i'r rhai a oedd ar waith yng Nghonwy.

- Dadansoddiad o gynnis Cyngor Tref Prestatyn i dalu cymhorthdal ar gyfer meysydd parcio Sir Ddinbych.

Rhodddwyd crynodeb gan y swyddogion o'r atodiadau canlynol, sydd wedi'u cynnwys gyda'r adroddiad:-

- A. Methodoleg fanwl
- B. Y cyfraddau taliadau arfaethedig
- C. Cymariaethau gyda darparwyr gwasanaeth eraill a Chynghorau eraill
- D. Taflen Cwestiynau Cyffredin a baratowyd er mwy trafod Cymorthdaliadau Cynghorau Tref
- E. Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Cyfeiriodd y Cadeirydd at ddiben y drafodaeth, i archwilio'r broses o gyflenwi'r gwasanaeth o fewn y gyllideb, a pheidio ennill unrhyw fudd economaidd drwy gyflwyno strwythur arall ar gyfer meysydd parcio. Roedd o'r farn bod dau faes penodol i'w trafod, ac y byddai'n bosibl eu cysylltu er mwyn cyflawni'r nod yn y pen draw.

Codwyd y pwyntiau perthnasol canlynol gan y swyddogion a rhodddwyd yr ymatebion canlynol i'r materion a godwyd gan yr Aelodau:-

- Un o nodau'r adolygiad oedd atal pobl rhag parcio drwy'r dydd oherwydd bod hyn yn cyfyngu ar y nifer o leoedd parcio sydd ar gael ar gyfer pobl a allai fod eisiau siopa.
- Roedd manylion y data traffig a pharcio wedi'u darparu ar y fantolen, a rhoddodd y swyddogion amlinelliad o sut y cafodd y ffigurau eu llunio.
- Cyfeiriwyd at y camsyniad bod codi'r taliadau yn rhwystro ymwelwyr rhag ymweld â'r ardal. Rhodddwyd cadarnhad mai'r cynnig manwerthu oedd yn cael y dylanwad mwyaf ar y dewisiadau a wneir gan ddefnyddwyr gwasanaeth.
- Rhodddwyd amlinelliad o'r broses weithredu ar gyfer mynd i'r afael â'r problemau a nodwyd.
- Pwysleisiwyd pwysigrwydd cyllideb gytbwys, a rhodddwyd cadarnhad y gallai'r Aelodau ddiwygio'r gyllideb drwy'r broses pennu cyllideb pe byddant yn dymuno gwneud hynny.
- Cadarnhawyd y gallai Sir Ddinbych ystyried cynigion o ddarpariaeth cymhorthdal gan Gynghorau Tref. Fodd bynnag, byddai pob achos yn cael ei ystyried ar ei rinweddau ei hun, a chyfeiriwyd yn benodol at y trefniadau presennol gyda Chynghorau Tref Prestatyn a Rhuthun.
- Roedd y gyllideb yn cael ei chydbwyso ar hyn o bryd drwy'r gyllideb cynnal a chadw, a phwysleisiwyd pwysigrwydd cyflawni'r gwasanaeth o fewn y gyllideb.
- Mewn ymateb i'r cyfeiriad gan Aelodau at feysydd parcio yn eu hardaloedd eu hunain, esboniodd Pennaeth y Gwasanaethau Priffyrdd a'r Amgylchedd bod pob maes parcio a'u lleoliadau penodol yn wahanol, a'r bwriad oedd cynnal strwythur sylfaenol o'r polisi o ran meysydd parcio arhosiad hir ac arhosiad byr.
- Trafodwyd goblygiadau ariannol buddsoddiad pellach mewn peiriannau Talu ac Arddangos. Cyfeiriwyd hefyd at fuddiannau posibl i ddefnyddwyr y gwasanaeth pe byddai taliadau digyswllt a thaliad drwy ffôn clyfar yn cael eu cyflwyno.

- Pwysleisiwyd y byddai'n bwysig nodi na ddylai'r Cyngor weithredu na darparu darpariaeth parcio ceir ar sail fasnachol, na cheisio cynhyrchu elw o'r incwm a dderbynnir.

Yn ystod y drafodaeth ganlynol, mynegodd yr Aelodau eu barn ar y materion canlynol:-

- Consensws cyffredinol y Pwyllgor oedd cefnogi cynnydd o 10c i 20c i'r taliadau, ac y bydd y gyfundrefn taliadau yn seiliedig ar gyfnod hanner diwrnod o 3 awr yn hytrach na 4 awr. Rhagwelwyd y byddai pobl yn rhoi'r gorau i'r arfer o brynu dau docyn 4 awr yn hytrach na phrynu tocyn drwy'r dydd yn sgîl y newid arfaethedig hwn.
- Cyfeiriwyd at y posibilrwydd o'r rhaglen adfywio yn Y Rhyl a'r ymateb negyddol posibl i gynnydd yn y taliadau parcio ceir.
- Awgrymwyd y dylid ystyried y posibilrwydd o gyflwyno cyfnod gras, 5 neu 10 munud o bosibl, i ddefnyddwyr gwasanaeth a oedd wedi mynd y tu hwnt i'r cyfyngiad amser ar eu tocynnau parcio. Nid oedd y swyddogion yn credu y byddai hyn yn ymarferol ac y byddai'n anodd pennu ffiniau derbynol.
- Yr angen i sicrhau bod darpariaeth parcio arhosiad byr ar gael i siopwyr lleol ac ymwelwyr i'r trefi yn y Sir.
- Cafwyd cais am eglurhad o'r cytundeb a wnaed gyda deiliaid trwydded o ran defnyddio meysydd parcio arhosiad hir ac arhosiad byr.
- Darparwyd yr esboniad mai dim ond un maes parcio a oedd wedi gweld cynnydd mewn incwm yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Awgrymwyd yr angen am gymhelliant i gynyddu'r defnydd a wneir o feysydd parcio, a chyflawni'r gyllideb yr un pryd.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at yr argymhellion yn yr adroddiad a nodwyd y sylwadau canlynol. Yn ystod y drafodaeth ddilynol, bu i'r Pwyllgor:-

- pwysleisio nad oeddent yn gorff gwneud penderfyniadau ond eu bod yn cymeradwyo'r argymhellion bod angen cydbwysu cyllidebau, yn cynnwys y gyllideb meysydd parcio, yn amodol ar y broses Rhyddid a Hyblygrwydd.
- cytuno bod y fethodoleg yn yr adroddiad yn darparu dull rhesymegol o bennu taliadau, penderfynu ar lefelau incwm a chyflawni prif angen gweithredol y gwasanaeth, h.y. cynyddu argaeledd lleoedd ar gyfer siopwyr ac ymwelwyr, a
- nodi y gallai fod yn bosibl amrywio'r gyllideb derfynol drwy broses pennu cyllideb y Cyngor, yn cynnwys unrhyw ddiwygiadau a allai godi drwy'r broses Rhyddid a Hyblygrwydd, a gallai hyn effeithio ar y taliadau y byddai angen eu codi. Esboniodd y Cadeirydd, er mwyn egluro'r sefyllfa, y dylai unrhyw benderfyniad ar gynnydd neu ostyngiad i'r taliadau gael eu gwneud ar ôl y broses o bennu'r gyllideb.

Yn dilyn trafodaeth bellach:-

**PENDERFYNWYD** – bod y Pwyllgor:-

- (a) yn derbyn ac yn nodi cynnwys yr adroddiad, ac



(b) yn cefnogi'r argymhellion yn yr adroddiad, yn ddarostyngedig i'r sylwadau uchod, ac yn arbennig yr isaf o'r ddau fand taliadau a band tariff arfaethedig a ddangosir yn Atodiad B gyda chyfnod hanner diwrnod o 3 awr.

## 6 DIWEDDARIAD PROSIECT RHEOLEIDDIO MEYSYDD CARAFANAU YN WELL

Dosbarthwyd adroddiad gan y Rheolwr Datblygu, Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Cyflwynodd y Cynghorydd D.I. Smith yr adroddiad dilynol i'r adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor ym mis Ebrill 2015. Roedd yr adroddiad yn rhoi amlinelliad o'r gwaith sydd wedi'i wneud hyd yma a'r camau nesaf a oedd yn cael eu cynnig gan y Gwasanaeth Gwella a Moderneiddio Busnes, yn ogystal â diweddariad ar elfen Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd y prosiect. Roedd yn darparu gwybodaeth ar gynnydd y prosiect oherwydd bod y cyfrifoldeb am gyrchu data wedi'i aseinio i'r Gwasanaeth Gwella a Moderneiddio Busnes.

Cyfeiriodd y Pennaeth Busnes, Gwella a Moderneiddio at ganlyniadau'r prosiect peilot, a chadarnhawyd bod y cyfrifoldeb am agweddau corfforaethol y prosiect wedi'u trosglwyddo i'r Gwasanaeth Gwella a Moderneiddio Busnes. Y Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd oedd yn gyfrifol am gynhyrchu gweithdrefn reoliadol a fyddai'n nodi'r opsiynau rheoliadol ar gyfer rheoli'r defnydd preswyl anawdurdodedig o garafanau gwyliau o safbwyntiau cynllunio a thrwyddedu. Er y byddai rhai o gerrig milltir y prosiect yn cael eu cyflawni gan wasanaethau gwahanol, byddai'n cael ei gynnal fel un prosiect unigol.

Rhoddwyd crynodeb o'r cynnydd hyd yma i'r Pwyllgor o ran nodi maint y broblem, fel y cafodd ei amlinellu yn yr adroddiad. Darparwyd amlinelliad o'r camau nesaf i dargedu a rheoleiddio defnyddwyr gwasanaeth, gan ddefnyddio'r Gofrestr Etholiadol a gweithio gyda pherchenogion safleoedd carafanau. Roedd rhestr gynhwysfawr o'r holl safleoedd carafanau gwyliau sydd yn y Sir, a charafanau gwyliau unigol, wedi'u cynnwys yn Adran 2 Atodiad 1. Roedd pum carreg filltir allweddol arall wedi'u nodi ar gyfer y prosiect, yn cynnwys:-

- Cynnal ymarfer mapio o leoliadau a lwfansau safleoedd carafanau gwyliau gan y Gwasanaeth Cynllunio a Thrwyddedu, fel y'i nodir yn Atodiad 3.
- Datblygu system prosesu data er mwyn gallu adrodd ar y defnydd a wneir gan 'breswylwyr' carafanau gwyliau o'r gwasanaeth, o'r data a gasglwyd hyd yma. Roedd hyn wedi'i gynnwys yn Atodiad 4, a oedd wedi'i eithrio rhag datgeliad cyhoeddus yn unol â pharagraff 13 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol, 1972.
- Cynnal dadansoddiad ac ymarfer mapio o'r canlyniadau defnydd gwasanaeth.
- Cynhyrchu strategaeth gorfforaethol ar garafanau.
- Datblygu gweithdrefn reoliadol a chynllun gweithredu.

Rhoddodd y Rheolwr Datblygu, Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, amlinelliad o'r amcanion i leihau nifer y bobl sy'n byw mewn carafanau gwyliau yn gorfforaethol, drwy atal mynediad at y gwasanaethau hynny sy'n cael eu darparu gan y Cyngor yn y ffynhonnell. Amlygodd yr angen i reoleiddio'r ddarpariaeth, ac y byddai'n bosibl

gwneud hynny drwy weithio gyda chymdeithasau carafanau a pherchenogion parciau carafanau, ac roedd gwaith manwl eisoes wedi'i wneud ar hyn.

Ymatebodd y Swyddogion i'r pryderon a godwyd gan yr Aelodau ynglŷn â chynnwys preswylwyr ar safleoedd carafanau ar Gofrestrfeydd Etholiadol mewn mwy nac un ardal, a'r goblygiadau ariannol posibl o fynd i'r afael â'r problemau a nodwyd. Rhoddodd y Pennaeth Gwella a Moderneiddio Gwasanaethau amlinelliad o'r dulliau a fyddai'n cael eu defnyddio drwy'r wybodaeth a gasglwyd i olrhain defnyddwyr gwasanaeth sy'n byw mewn carafanau. Mewn ymateb i awgrym gan y Cadeirydd y dylai gwybodaeth o'r fath fod ar gael ar bob un o breswylwyr yn y Sir, esboniodd y CD:ECA bod hyn yn cael ei gyflawni drwy'r system CRM a oedd yn paru pobl yn erbyn cyfeiriadau a'r defnydd a wneir o wasanaethau.

Esboniodd y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd bod y mater sy'n cael ei ystyried yn fater corfforaethol, a phwysleisiodd y manteision o fynd i'r afael â'r materion drwy brosiect corfforaethol a thrwy gytuno ar strategaeth orfodi briodol. Cyfeiriwyd at y ddeddfwriaeth bresennol a nododd yr angen i nodi cwantwm y broblem, a fyddai'n helpu i ganfod atebion a chyflwyno dull gweithredu cydgyssylltiedig.

Mewn ymateb i'r pryderon a godwyd gan yr Aelodau, rhoddodd y swyddogion fanylion o'r broses ymchwilio a'r ymarfer mapio a fabwysiadwyd ar gyfer safleoedd carafanau mwy a llai. Rhoddwyd manylion y costau cyfredol a'r goblygiadau ariannol yn y dyfodol i'r Pwyllgor, a phwysleisiodd y Pennaeth Gwella a Moderneiddio Gwasanaethau bwysigrwydd a manteision creu system gywir i liniaru'r costau yn y dyfodol.

Cadarnhaodd yr HBIM eu bod yn rhagweld y byddai cerrig milltir y prosiect yn cael eu cyflawni ac y byddai pob un o'r cynhyrchion sylfaenol yn cael eu cyflawni erbyn diwedd 2015. Roedd yn rhagweld y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor erbyn diwedd yr hydref, a fyddai'n nodi'r strategaeth a'r weithdrefn reoliadol a fyddai'n cael eu defnyddio yn y dyfodol. Yn ystod y drafodaeth ddilynol, mynegodd y Pwyllgor eu cefnogaeth lawn i'r gwaith a oedd yn cael ei wneud, a'r camau nesaf arfaethedig a oedd wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad.

***PENDERFYNWYD*** – *bod y Pwyllgor yn:-*

- (a) derbyn yr adroddiad*
- (b) nodi cynnydd y prosiect hyd yma*
- (c) cymeradwyo'r camau nesaf arfaethedig sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad, a chytuno i dderbyn adroddiad pellach ar gynnydd yn ystod Hydref 2015.*

## **7 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR ARCHWILIO**

Roedd copi o adroddiad gan y Cydlynnydd Archwilio, a oedd yn gofyn i'r Pwyllgor adolygu a chytuno ar ei raglen gwaith i'r dyfodol ac a oedd yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am faterion perthnasol, wedi'i ddsbarthu gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Roedd copi o 'ffurflen gynnig Aelodau' wedi'i gynnwys yn Atodiad 2. Esboniwyd na fyddai unrhyw eitemau yn cael eu cynnwys ar raglen gwaith i'r dyfodol heb i 'ffurflen gynnig archwilio' gael ei chwblhau a'i derbyn i'w chynnwys gan y Pwyllgor neu'r SCVCG. Roedd tabl a oedd yn crynhoi'r cynnydd ar atebion diweddar y Pwyllgor ac a oedd yn rhoi'r cynnydd i'r Aelodau o ran eu gweithredu wedi'i gynnwys yn Atodiad 4.

Roedd copi o raglen gwaith i'r dyfodol y Cabinet wedi'i chynnwys yn Atodiad 3. Cyfeiriwyd at yr eitem fusnes a oedd yn gysylltiedig â Thaliadau Parcio ar gyfer y cyfarfod ar 28<sup>ain</sup> Gorffennaf, 2015. Esboniodd y CD: ECA bod yr eitem wedi'i chynnwys er mwyn ystyried unrhyw faterion neu argymhellion a fyddai'n deillio o'r drafodaeth yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio, a chytunodd y byddai'n ymgynghori â'r Aelod Arweiniol o ran ei ddileu o raglen waith y Cabinet.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at yr Adolygiad o Ofal Cymdeithasol a oedd wedi'i gynnal. Roedd o'r farn nad oedd yr effaith ar y gymuned wedi'i hystyried, ac nad oedd yr amserlenni yn galluogi mewnbwn gan y cyhoedd yn y broses. Rhoddodd y CD:ECA fanylion y broses a oedd wedi'i mabwysiadu ac esbonio bod ffynonellau wedi bod ar gael, drwy'r Grŵp Tasg a Gorffen a Phwyllgor Archwilio Partneriaethau, a oedd wedi darparu cyfleoedd i drafod materion cyn iddynt gael eu hystyried gan y Cabinet.

Roedd y Pwyllgor yn cytuno y dylid gwahodd y darpar Aelodau Arweiniol i gyflwyno'r adroddiadau ar yr eitemau busnes a fyddai'n cael eu cynnwys ar y rhaglen ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor a oedd wedi'i drefnu ar gyfer 10<sup>fed</sup> Medi, 2015.

Cadarnhawyd y byddai cyfarfod nesaf Grŵp Cadeiryddion a Dirprwy Gadeiryddion Pwyllgorau Archwilio yn cael ei gynnal ar 23<sup>ain</sup> Gorffennaf, 2015.

Roedd Cyfarwyddwr Cyllid Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Mr Jon Rae, wedi derbyn gwahoddiad y Pwyllgor i fynychu cyfarfod y Pwyllgor ar 10<sup>fed</sup> Medi, 2015 i drafod Effaith hysbysiad hwyr ar gyllid Llywodraeth Ganolog.

Cododd y Cynghorydd T.R. Hughes yr eitem fusnes, "Adolygiad o'r Polisi Trafnidiaeth o'r Cartref i'r Ysgol", a fyddai'n cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 27<sup>ain</sup> Hydref, 2016, i ystyried canfyddiadau adolygiad o effaith cyflwyno'r Polisi ar ôl ei flwyddyn lawn gyntaf. Cytunodd yr Aelodau y byddai adroddiad diweddarau yn cael ei gyflwyno hefyd i'r Pwyllgor yn ddiweddarach eleni ar ôl i'r system newydd fod yn weithredol am fis, sy'n dechrau ym mis Medi 2015, a fyddai'n nodi effaith y broses gychwynol o gyflwyno'r Polisi.

Wrth ymateb i'r pryderon a godwyd gan y Cynghorydd B. Blakeley ar y broses ymgynghori ar y trefniadau ar gyfer Hafan Deg a'i ddefnyddwyr gwasanaeth yn y dyfodol, rhoddodd y CD:ECA fanylion am y broses a'r amserlenni. Esboniodd y byddai'r mater yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Archwilio Perfformiad ar 16<sup>eg</sup> Gorffennaf, 2015, ac y byddai'r opsiynau a fyddai ar gael yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet eu hystyried.

Yn dilyn trafodaeth bellach:-

***PENDERFYNWYD*** – yn amodol ar y diwygiadau a'r cytundebu uchod, y byddai'r Rhaglen Waith a gyflwynir yn Atodiad 1 yr adroddiad yn cael ei chymeradwyo.

**8 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR**

Ni chyflwynwyd unrhyw adroddiadau.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.50 a.m.

<b>Adroddiad i'r:</b>	<b>Pwyllgor Archwilio Cymunedau</b>
<b>Dyddiad y Cyfarfod:</b>	<b>10 Medi 2015</b>
<b>Aelod / Swyddog Arweiniol:</b>	<b>Aelod Arweiniol dros Gyllid, Cynllun Corfforaethol a Pherfformiad / Prif Swyddog Cyllid (Swyddog Adran 151)</b>
<b>Awdur yr Adroddiad:</b>	<b>Prif Swyddog Cyllid (Swyddog Adran 151)</b>
<b>Teitl:</b>	<b>Cynllunio Ariannol</b>

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at rai o'r penderfyniadau ariannu a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru yn y flwyddyn ddiwethaf ac mae'n amlinellu'r effaith ar gynllunio ariannol y cyngor.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

I ddangos yr anawsterau y gall penderfyniadau tymor byr neu annisgwyl eu hachosi, a'r effaith ar allu'r cyngor i ddelio â'r heriau ariannol sy'n wynebu'r sector cyhoeddus.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Ystyried yr adroddiad a gwneud sylwadau fel y bo'n briodol.

## 4. Manylion yr Adroddiad

Arian refeniw gros y Cyngor yn 2015/16 yw £282.6m ac mae wedi'i ddadansoddi fel a ganlyn:

<b>Cyllideb</b>	<b>Manylion</b>	<b>Gwerth</b>
<b>Cyllideb Refeniw Gros</b>		<b>£283m</b>
Ariannwyd gan:	Ffioedd/Incwm Arall	£48m
	Grantiau'r Llywodraeth	£50m
<b>Cyllideb Refeniw Net</b>		<b>£185m</b>
Ariannwyd gan:	Setliad Refeniw	£140m
	Treth y Cyngor	£45m

Mae Cyllid y Llywodraeth yn cyfrif am tua 67% o gyllideb gros y cyngor, a'r elfen fwyaf arwyddocaol yw'r Grant Cynnal Refeniw sy'n darparu 40% o gyfanswm arian y cyngor.

Yn 2015/16, Grant Cynnal Refeniw yw £112.9m (£115.5m y llynedd), ac ynghyd â Threthi Annomestig Cenedlaethol mae'n ffurfio 'Setliad Terfynol' y

cyngor gan y Llywodraeth. Mae'r Setliad yn cynrychioli 77% o gyllideb refereniw net y cyngor o £188m. Mae gan newid canrannol i'r Setliad fwy neu lai yr un effaith â newid o 3.4% yng nghyllid Treth Gyngor. O ystyried yr effaith y mae newidiadau i'r Setliad wedi ei gael ar gyllid y cyngor, mae gwybodaeth cynllunio ariannol tymor canolig cadarn yn hanfodol. Mae'r cyngor yn cynnal cynllun ariannol tymor canolig treigl tair blynedd sy'n dibynnu ar ragdybiaethau cynllunio deallus, gan gynnwys yr elfen fwyaf arwyddocaol o Setliad Refereniw blyneddol Llywodraeth Leol.

Tan fis Mai 2013, bu'r gwerthoedd Setliad yn gymharol gyson â'r dyraniadau amcanol a gyhoeddwyd yn 2011. Roedd y dyraniadau amcanol yn golygu bod cyngorau Cymru yn cynllunio ar gyfer cynnydd ar gyfartaledd mewn termau arian parod o 0.5% a dyma oedd yr achos ganolog yng nghynlluniau tymor canolig. Ym mis Mai 2013, rhybuddiodd y Gweinidog nad yw'r dyraniadau amcanol a ddarparwyd yn sail ar gyfer cynllunio. Y gostyngiad a gyhoeddwyd yn y pen draw yn y Setliad Terfynol ar gyfer llywodraeth leol yn 2014/15 oedd -3.4%. Mae'r Setliad Terfynol yn cynnwys gwerth setliad dangosol ar gyfer 2015/16 a oedd yn dangos gostyngiad -1.55% mewn cyllid. Ym mis Mehefin 2014, cyhoeddodd y cyn Weinidog unwaith eto nad oedd modd defnyddio ffigurau dangosol er mwyn blaen gynllunio ac y gallai'r gostyngiad fod mor uchel â -4.5%. Yn absenoldeb unrhyw beth mwy penodol, newidiodd llawer o gyngorau eu thybiaethau cynllunio i gynnwys gostyngiad o -4.5%.

Cafodd ystod ariannol effeithiau'r senarios hyn eu nodi yng Nghynllun Ariannol Tymor Canolig ar y pryd i ddylanwadu ar broses cyllideb y cyngor. Mae'r tabl isod yn meintio effaith ariannol yr ystod o werthoedd setliadau a ddyfynnir uchod. Setliad Terfynol y Cyngor ar gyfer 2015/16 oedd gostyngiad ariannol o 3.6%, ac ynghyd â thybiaethau eraill, creodd fwlch cyllidebol o £8.3m.

Blwyddyn	Formal Settlement	Effaith	Cyhoeddia dau Canol Blwyddyn	Effaith	Setliad Terfynol	Effaith	Ystod yr Effaith	
	Dangosol	£'000		£'000	£'000	£'000	£'000	
14/15	0.50%	761	-4.00%	(6,088)	-3.40%	(5,175)	760.99	(6,088)
15/16	-1.55%	(2,323)	-4.50%	(6,533)	-3.60%	(5,226)	(2,323)	(6,533)

Derbynnir bod yna rhywfaint o ansicrwydd ar hyn o bryd ar lefel genedlaethol yng Nghymru a'r DU ynghylch cyllid cyhoeddus, wrth aros am ganlyniad Adolygiadau Gwariant ar lefel Llywodraeth Cymru a'r DU. Fodd bynnag, mae'r diffyg setliadau llywodraeth leol aml-flwyddyn dibynadwy yn peri risg gwirioneddol i gynllunio ariannol a gallu'r cyngor i reoli'r heriau ariannol sydd o'n blaenau. Wrth i benderfyniadau cyllido fod yn fwyfwy anodd i aelodau etholedig, mae'n debygol y bydd yr amser rhagarweiniol i gyflwyno arbedion yn cynyddu a bydd rhaid gwneud penderfyniadau ar y wybodaeth orau sydd ar gael ar y pryd, oedd yn seiliedig ar y ddwy flynedd ariannol ddiweddar, gallai amrywio'n sylweddol o'r sefyllfa derfynol.

Er bod newidiadau i'r Grant Cynnal Refeniw yn amlwg yn cael effaith sylweddol, oherwydd ei fod yn werth sengl, o leiaf gellir modelu effaith ystod o senarios mewn i gynlluniau ariannol. Serch hynny, nid dyma'r achos o ran grantiau a'r penderfyniadau (neu mewn rhai achosion, penderfyniadau hwyr) yn effeithio ar gyllid grantiau.

Ynglwm fel atodiad 1 y mae enghreifftiau o newidiadau heb eu cynllunio, boed hynny'n gadarnhaol neu'n negyddol, sy'n effeithio ar y gweithgareddau sy'n cael eu hariannu dryw grantiau. Cyn ystyried yr enghreifftiau, rhaid tynnu sylw at y pwynt ehangach ynghylch nifer y grantiau penodol a'r fiwrocratiaeth ychwanegol a'r gost sy'n cyd-fynd â nhw. Tynnwyd sylw mewn adolygiad a gynhaliwyd ar grantiau 13/14 at 86 grant refeniw penodol. Roedd y rhain yn amrywio mewn gwerth o £900 i £6.5m, heb unrhyw gydlynid amlwg yn yr amodau cais am grant. Er enghraifft, mae rhai yn gofyn am archwiliad llawn o'r gwariant grant ac eraill ddim, heb gyfeirio at werth y grant.

Bu rhywfaint o symudiad ar hyn yn ddiweddar, ond y llynedd derbyniodd y cyngor tua £34m o grantiau refeniw gan Lywodraeth Cymru, er bod rhai trwy'r consortiwm addysg rhanbarthol. Mae'r rhain yn amrywio o'r mwyaf (£6m Grant Cefnogi Pobl) i tua deg a oedd yn llai na £10,000 mewn gwerth. Mae newidiadau ar gyfer 2015/16 wedi cael eu cadarnhau mewn dau faes. Yn gyntaf, mae'r Grant Gwella Addysg (£4.4m) erbyn hyn wedi cynnwys un ar ddeg o gyn grantiau ac mae trefniadau archwilio ar gyfer y grant hwn wedi cael eu llacio yn sylweddol, gan ganolbwyntio ar ganlyniadau yn hytrach na manylion y gwariant. Felly yn weinyddol mae'n welliant, ond roedd y cyfuniad yn golygu gostyngiad mewn cyllid.

Yn ail, mae'r Grant Datblygu Amgylchedd a Chynaliadwyedd (£2.3m) newydd wedi ymgorffori Grant Rheoli Datblygu Cynaliadwy, Trefi Taclus a grantiau Amddiffynfeydd Llifogydd - dim arwyddion eto a fydd hyn yn cael ei dorri. Fodd bynnag, o ddiwedd mis Awst, nid yw'r dyraniad terfynol wedi cael ei gymeradwyo, a gallai gael ei newid, ar ôl i bum mis o'r flwyddyn ariannol fynd heibio.

Yn ogystal, bydd y Cytundeb Canlyniadau (£1.0m) hefyd yn trosglwyddo i'r Grant Cynnal Refeniw y flwyddyn nesaf.

Felly bu rhywfaint o welliant ond mae lle i lawer mwy. Mae'r newidiadau uchod yn golygu bod cyfanswm nifer y grantiau wedi gostwng ac mae rhai o'r dulliau archwilio wedi cael eu hymllacio, ond mae peth anghysondeb yn parhau yn y dull archwilio rhwng ffrydiau ariannu. Byddai £34m sydd heb ei neilltuo yn bendant yn torri lawr ar fiwrocratiaeth a chost. Mae cynghorau Cymru yn fwy dibynnol ar arian grant na'u cymheiriaid yn Lloegr fel cyfran o'r cyllid cyffredinol, ac felly byddai toriadau i gyllid grant yn cael mwy o effaith. Dylid dilyn model Lloegr o ddad-neilltuo yng Nghymru er mwyn lliniaru'r risg hwn a rhoi mwy o ryddid i gynghorau ymdrin â chyllidebau sy'n lleihau mewn ffordd gynlluniedig.

Mae grantiau penodol yn fodd i gyflawni blaenoriaethau adrannol llywodraeth genedlaethol drwy seilwaith llywodraeth leol, y tu allan i'r brif Grant Cynnal

Refeniw. Mae'r rhan fwyaf o grantiau yn ariannu swyddi penodol neu'n cefnogi ystod o swyddi, ac mae ansicrwydd ynghylch cyllid yn y dyfodol, neu bod yn hwyr yn rhoi gwybod am glustnodi, yn achosi risg i gyflwyno gwasanaeth a chynllunio ariannol.

Ar un llaw fe groesawir cyllid ychwanegol heb ei gynllunio yn ystod y flwyddyn, ond ar y llaw arall, gall fod yn broblem. Yn aml, gwneir y cyhoeddiadau ym mis Chwefror neu fis Mawrth gyda chyfarwyddiadau i wario'r arian cyn diwedd y flwyddyn. Er enghraifft, ar 31 Mawrth 2014 cafodd y cyngor wybod bod arian ar gyfer 'pwysau'r gaeaf' yn cael ei ddyfarnu ar gyfer 2013/14. Yn yr enghraifft honno, o leiaf roedd yn ddichonadwy oherwydd yr amodau grant, i ariannu costau eisoes, ond lle mae'r arian yn cyrraedd yn hwyr yn y flwyddyn i gefnogi blaenoriaeth benodol, gall fod yn broblematig i'w wario cyn diwedd y flwyddyn ac yn aml mae'n gwyrddroi sefyllfa refeniw y mae'r cyngor wedi ei adrodd. Yn yr hinsawdd ariannol heriol sydd ohoni, gall dyfarnu grantiau penodol yn annisgwyl arwain at arian a allai gael ei sianelu i weithgareddau sydd yn destun toriadau ariannol ehangach neu yn anghydweddol â blaenoriaethau neu benderfyniadau eraill y cyngor.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae cynllunio ariannol cadarn wrth wraidd pob gweithgaredd cyngor.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Mae'r ystod o effeithiau ariannol wedi'i nodi yn Adran 4.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad?**

Nid oedd angen datganiad ar gyfer yr adroddiad hwn. Mae pob penderfyniad cyllidebol yn destun AEC unigol ac asesiadau effaith ehangach.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Trysoryddion Cymru yn parhau i lobïo ar gyfer setliadau aml-flwyddyn a chynnydd mewn dad-neilltuo cyllid grant.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae'r diffyg setliadau ariannol aml-flwyddyn dibynadwy yn rhwystro cynllunio ariannol a gwasanaeth y cyngor ac yn peri risg sylweddol. Bydd penderfyniadau cyllidebol yn dod yn fwy anodd a bydd y cyfnod rhagarweiniol i wneud newidiadau yn cynyddu. Er y bu gwelliannau i lefel y fiwrocratiaeth o ran grantiau, byddai dilyn model Lloegr o ddad-neilltuo grantiau refeniw yn rhoi mwy o hyblygrwydd i gynghorau i ymdrin â heriau sydd o'n blaenau a byddai'n gostwng costau ymhob haen o lywodraeth.



**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Nodir y rhain yn Adran 4.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol o dan Adran 151, Deddf Llywodraeth Leol 1972 wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu eu materion ariannol yn briodol.

Mae Erthygl 6.3.2(c) yn amlinellu pwerau archwilio mewn perthynas ag edrych ar unrhyw fater sy'n effeithio ar yr ardal neu ei thrigolion ac mae Erthygl 6.3.2(d) yn nodi ei bwerau wrth ymdrin â materion a gyfeiriwyd ato gan y Cyngor neu'r Cabinet. Mewn cyfarfod ym mis Chwefror 2015, gofynnodd y Cyngor Sir i'r pwyllgor archwilio edrych ar y mater penodol hwn.

**Swyddog Cyswllt:** Prif Swyddog Cyllid (Swyddog Adran 151) Ffôn: 01824  
706090

## Atodiad 1

Grant	Gwerth	Mater
Grant Cefnogi Pobl	£6.1m	Ystod o doriadau a gynghorwyd drwy 14/15: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Toriad dangosol 5.8%</li> <li>• Cynghorwyd ym mis Mai 15%</li> <li>• Toriad terfynol 10.4%</li> </ul>
Grantiau Addysg (Grant 14-19, Grant Effeithlonrwydd Ysgolion a Grant Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig)	£3.0m	Toriadau yn ystod y flwyddyn 2014/15. I gychwyn, dywedwyd y byddai'r toriadau yn 5% ond y gellir eu cymhwysu i'r tri grant a restrwyd, ond wedyn cafodd hyn ei newid i roi disgrisiwn i gynghorau. Y toriad yn y diwedd oedd cyfartaledd o 4.3%.
Grant Nofio am Ddim	£112,000	Cafodd y dyraniad ar gyfer 2015/16 ei dorri gan £20,000 gyda phum wythnos o rybudd.
Grant Cyfleoedd Chwarae	(£48,000)	Cyhoeddwyd ar 12 Chwefror gyda chyfarwyddyd i wario'r grant erbyn 31 Mawrth.
Cofnodi Trwyddedau Symud Anifeiliaid	£37,000	Cawsom wybod beth amser yn ôl y byddai cofnodi trwyddedau symud anifeiliaid yn destun 'hunanwasanaeth' gan ffermwyr, gan leihau'r angen i gyflogi staff i wneud hynny, felly cafodd y gyllideb ei thynnu nôl. Mae'r cyngor wedi cynllunio ar gyfer hyn a gadawodd staff perthnasol, neu byddant yn gadael ar 31 Mawrth.  Serch hynny, mae bellach yn amlwg na fydd y drefn 'hunanwasanaeth' yn cael ei chyflwyno ar amser, a dywedodd Llywodraeth Cymru efallai y bydd angen i rai cynghorau barhau â'r swyddogaeth/cyfrifoldeb hyd nes i'r 'hunanwasanaeth' gael ei gyflwyno - ond fe fydd y gyllideb yn cael ei thynnu nôl. Fe gysylltodd Awdurdodau Lleol â Llywodraeth Cymru sydd bellach wedi dweud y bydd rhywfaint o gyllid ychwanegol ar gael i'r Awdurdodau Lleol hyd nes bydd yr 'hunanwasanaeth' yn cael ei gyflwyno.
Cronfa Cydweithio Rhanbarthol	£2.3m	Sefydlwyd y Gronfa Cydweithio Rhanbarthol yn 2013/14 fel cronfa £10 miliwn ledled Cymru i hybu prosiectau cydweithredol. Cafodd prosiectau eu cymeradwyo ar sail gwarant ariannu tair blynedd. Yn 2014/15, cafodd hanner y gronfa hon ei ailenwi yn rhan o'r Gronfa Gofal Canolraddol, wedi'i anelu'n benodol at ariannu prosiectau gofal cymdeithasol. Fodd bynnag, cafodd y Gronfa Gofal Canolraddol ei chyflwyno fel rhaglen gyllido am un flwyddyn yn unig, gan olygu bod blwyddyn olaf y cyllid gwreiddiol Cronfa Cydweithio Rhanbarthol wedi cael ei haneru.
Gwasanaethau Cymdeithasol - Grant Cyflawni Trawsnewid	£284,000	Y broblem â'r grant hwn yn aml yw ein bod yn cael gwybod yn hwyr y bydd yn cael ei ddyrannu – derbyniwyd y grantiau ym mis Hydref a Rhagfyr yn y ddwy flwyddyn ariannol ddiwethaf.
Grant Rheoli Gwastraff	£2.2m	Cael gwybod yn hwyr am y ffigwr grant terfynol. Fel arfer Ebrill ond mae wedi bod yn mis Awst.

<b>Adroddiad i'r:</b>	<b>Pwyllgor Archwilio Cymunedau</b>
<b>Dyddiad y Cyfarfod:</b>	<b>10 Medi 2015</b>
<b>Swyddog Arweiniol:</b>	<b>Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Cymunedol</b>
<b>Aelodau Arweiniol:</b>	<b>Aelod Arweiniol Gofal Cymdeithasol (Gwasanaethau Plant ac Oedolion)</b>
<b>Awdur yr Adroddiad:</b>	<b>Rheolwr Tîm Cefnogi Pobl a Rheolwr Gofal a Chymorth Tai</b>
<b>Teitl:</b>	<b>Gwasanaeth Cefnogi Byw'n Annibynnol</b>

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi diweddariad ar adroddiadau blaenorol a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio ynglŷn â'r Gwasanaeth Cefnogi Byw'n Annibynnol (y Gwasanaeth Wardeniaid gynt). Mae'r adroddiad yn rhoi trosolwg o ganfyddiadau allweddol yr asesiad strategol diweddar o'r gwasanaeth dan arweiniad Cefnogi Pobl. Mae'r adroddiad hefyd yn trafod y cynigion ar gyfer dyfodol y gwasanaeth hwn.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae'r Pwyllgor wedi gofyn am yr adroddiad hwn.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod yr aelodau'n ystyried cynnwys yr adroddiad ac yn gwneud sylwadau yn unol â hynny ac yn cefnogi'r dull gweithredu a gymerir.

## 4. Manylion yr Adroddiad

Arweiniodd yr adolygiad o'r Rhaglen Cefnogi Pobl yng Nghymru at wneud yr argymhelliad canlynol mewn perthynas â gwasanaethau pobl hŷn.

*"Argymhellir y dylai'r meini prawf cymhwyso ar gyfer pobl hŷn sy'n derbyn arian Cefnogi Pobl fod yn seiliedig ar angen yn hytrach nag oedran neu ddaliadaeth" (Aylward, 2010).*

Ym mis Awst 2012 cyflwynwyd Canllawiau'r Rhaglen Cefnogi Pobl i hwyluso gweithredu ar yr argymhellion a wnaed gan Syr Mansel Aylward yn ei adroddiad.

Nododd y canllaw hwn:

- Bod yn rhaid i ddarpariaeth gwasanaethau cymorth sy'n gysylltiedig â thai fod yn seiliedig ar anghenion sydd wedi eu dynodi neu eu hasesu a bod rhaid i'r ddarpariaeth hefyd fod yn hyblyg ac yn canolbwyntio ar y person

- Y dylai gwasanaethau Cefnogi Pobl fod yn alluogol a datblygu annibyniaeth yr unigolyn
- Bod yn rhaid i becynnau cymorth fod yn seiliedig ar gynlluniau cymorth ysgrifenedig sy'n cynnwys asesiadau risg a mesurau rheoli risg
- Bod angen datganiad o feini prawf cymhwyso ar gyfer derbyn gwasanaeth
- Bod yn rhaid i gymorth ganolbwyntio ar ganlyniadau gyda nodau cyraeddadwy a bod yn rhaid iddynt ddilyn Fframwaith Canlyniadau Cymru Gyfan
- Bod yn rhaid i wasanaethau sy'n derbyn cyllid Cefnogi Pobl adrodd i'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol

Cyflwynwyd yr adroddiad diwethaf i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Mai 2014. Ers hynny mae Gwasanaethau Tai a Datblygu Cymunedol wedi newid yn sylweddol. Mae Cefnogi Byw'n Annibynnol bellach yn rhan o'r Gwasanaethau Cymorth Cymunedol.

Gwasanaeth Wardeniaid Cyngor Sir Ddinbych (Cefnogi Byw'n Annibynnol bellach) yw'r gwasanaeth wardeniaid cyntaf yn Sir Ddinbych i ddod yn ddaliadaeth niwtral. Mae Cyngor Sir Ddinbych ar y cyfan ar y blaen i Awdurdodau Lleol eraill yn y rhanbarth o ran gweithredu argymhellion Aylward.

Mae contract presennol Cefnogi Byw'n Annibynnol yn dod i ben 31.3.2016. Mae Canllawiau'r Rhaglen Cefnogi Pobl yn datgan y dylai gwasanaethau newydd fod yn destun yr ymarferion caffael a rheoleiddio arferol. Cyn belled a bod trefn adolygu gadarn a rheolaidd ar waith, ni ragwelir y bydd gwasanaethau Cefnogi Pobl yn cael eu hail-dendro yn rheolaidd, dim ond yn dilyn adolygiad gwasanaeth. Bydd yr adolygiad yn gallu canfod pa un ai yw'r gwasanaeth yn strategol berthnasol, o ansawdd isel, yn adlewyrchu canllawiau cost derbyniol ac yn gallu gwneud y newidiadau i fynd i'r afael â'r diffygion a nodwyd. Yn y lle cyntaf, dylid ystyried ailfodelu fel ffordd o ad-drefnu gwasanaethau.

Yn unol â Chanllawiau'r Rhaglen Cefnogi Pobl, mae'r Gwasanaeth Cefnogi Byw'n Annibynnol wedi ei werthuso'n ddiweddar dan arweiniad Cefnogi Pobl. Mae'r adroddiad yn dal ar ffurf drafft, fodd bynnag mae'r canfyddiad allweddol fel a ganlyn:

- Ceir digon o dystiolaeth bod y gwasanaeth Cefnogi Byw'n Annibynnol yn strategol berthnasol. Gellir datblygu'r gwasanaeth Cefnogi Byw'n Annibynnol i ddod yn bartner allweddol wrth gyfrannu at weithredu'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles yn Sir Ddinbych.
- Ceir digon o dystiolaeth bod y gwasanaeth Cefnogi Byw'n Annibynnol bellach yn wasanaeth deiliadaeth niwtral cymwys Cefnogi Pobl.
- Mae cynnydd cadarnhaol wedi ei wneud o ran datblygu prosesau Cynllunio Cefnogaeth a Rheoli Risg. Fodd bynnag, mae angen gwaith ychwanegol i ddatblygu polisiau a phrosesau er mwyn cyrraedd safonau ansawdd gwasanaeth gofynnol Cefnogi Pobl. Yn ystod yr wythnosau nesaf bydd y Rheolwr Cefnogi Byw'n Annibynnol a'r Swyddog Adolygu Cefnogi Pobl yn llunio cynllun gweithredu.

- Nid oes digon o dystiolaeth bod y gwasanaeth yn darparu gwerth am arian ar hyn o bryd. Mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu i lai o ddefnyddwyr gwasanaeth o lawer na'r hyn y mae'r contract yn ei ganiatáu. Mae nifer yr oriau hefyd yn llai. Cydnabyddir bod rheoli nifer y defnyddwyr gwasanaeth wedi bod yn anodd yn ystod y cyfnod pontio a bod gan Cefnogi Byw'n Annibynnol gynlluniau i gynhyrchu mwy o atgyfeiriadau yn y dyfodol. Bydd angen ystyried nifer y defnyddwyr gwasanaeth, oriau darparu a phris y contract cyn dyfarnu'r contract newydd yn 2016. Wrth ystyried y canfyddiadau hyn yn erbyn toriadau i'r Grant Cefnogi Pobl, bydd y Swyddog Contractau ac Adolygu yn gwneud argymhellion i ailfodelu'r gwasanaeth er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn. Mae hyn yn debygol o arwain at ostyngiad mewn cyllid ac oriau contract.
- **Ni** fydd y Swyddog Contractau ac Adolygu yn argymhell bod y gwasanaeth hwn yn destun proses dendro gystadleuol. Teimlir y byddai'r newidiadau yn sgil proses dendro yn niweidiol i'r cynnydd da a wnaed eisoes yn y gwasanaeth hwn. Bydd Cefnogi Pobl yn gweithio gyda Cefnogi Byw'n Annibynnol i ailfodelu'r gwasanaeth, i fynd i'r afael â'r materion a amlygwyd ac i gytuno ar lefel dderbyniol o arbedion ar gyfer y dyfodol.

## **5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Bydd y prosiect hwn yn cyfrannu at gefnogi Cynllun Corfforaethol Sir Ddinbych 2012-2017 yn y meysydd canlynol:-

- Mae pobl ddiamddiffyn yn cael eu diogelu ac yn gallu byw mor annibynnol â phosibl
- Sicrhau mynediad at dai o ansawdd da

Mae'r prosiect yn chwarae rhan allweddol wrth gyfrannu at atal digartrefedd ar gyfer pobl ddiamddiffyn.

## **6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Ar gyfer 2015-16, mae £547,962 o'r Grant Cefnogi Pobl wedi ei ddyrannu i Cefnogi Byw'n Annibynnol. Teimlir y gellir gwneud arbedion heb effeithio ar nifer y defnyddwyr gwasanaeth presennol na'r ddarpariaeth.

Mae gan y gwasanaeth y potensial i wneud cyfraniad sylweddol at Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru).

## **7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai'r templed AEC wedi'i lenwi gael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad.**

